

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Rhif 2) (Cymru) 2026

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru ac fe'i cyflwynir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog Cabinet

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Rhif 2) (Cymru) 2026. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Anna Brychan AS

Y Gweinidog Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg

1 Gorffennaf 2026

RHAN 1

1. Disgrifiad

- 1.1. Mae Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Rhif 2) (Cymru) 2026 ("Rheoliadau Rhif 2") yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026 ("Rheoliadau 2026").
- 1.2. Roedd Rheoliadau 2026 yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 ("Rheoliadau 2010"), Rheoliadau Addysg (Datganiadau Cyllideb) (Cymru) 2002 ("Rheoliadau 2002") a Rheoliadau Addysg (Datganiadau Alldro) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003"). Roedd disgwyl i Rheoliadau 2026 ddod i rym ar 1 Chwefror 2027 a bod yn gymwys i flynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2027 neu ar ôl hynny. Y bwriad oedd i Rheoliadau 2026 ddarparu ar gyfer cyllido ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd ariannol hynny.
- 1.3. Daw Rheoliadau Rhif 2 i rym ar 31 Ionawr 2027, ac maent yn dirymu ac yn ail-wneud Rheoliadau 2026 cyn i Rheoliadau 2026 ddod i rym er mwyn cywiro gwallau yn Rheoliadau 2026. Yn benodol, mae'n cywiro'r canlynol:
 - 1.3.1. Mae'r cyfeiriad at adrannau 24(3) a (4) a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002 yn rhagymadrodd Rheoliadau 2026 yn anghywir ac yn hytrach mae Rheoliadau Rhif 2 yn cyfeirio at adrannau 13, 14 a 32(2) o Fesur Addysg (Cymru) 2011;
 - 1.3.2. Mae'r cyfeiriad at "pupil's" yn rheoliad 21(6)(b) a rheoliad 21(7)(a) o Rheoliadau 2026 yn anghywir ac yn hytrach mae Rheoliadau Rhif 2 yn cyfeirio at "pupils"; ac
 - 1.3.3. Yn nhestun Cymraeg paragraff 31 o Atodlen 2 i Rheoliadau 2026, mae'r cyfeiriad at "ysgolion a gynhelir" yn anghywir ac yn hytrach mae Rheoliadau Rhif 2 yn cyfeirio at "ysgolion".
- 1.4. Mae Rheoliadau Rhif 2 yn darparu ar gyfer cyllido ysgolion a gynhelir yng Nghymru ac yn sefydlu'r fframwaith ariannol ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion. Maent hefyd yn nodi gwybodaeth am wariant awdurdodau lleol ar addysg y mae'n rhaid ei chynnwys mewn datganiadau cyllideb o wariant cynlluniedig a datganiadau alldro o wariant gwirioneddol.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth

- 2.1 Mae Rheoliadau Rhif 2 yn gwneud diwygiadau mewn ymateb i adroddiad Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad y

3. Cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Gweinidogion Cymru sy'n gwneud Rheoliadau Rhif 2, gan arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 45A(1), (1A), (2), (3), (4) a (4A), 45AC, 47(1), (2) a (3), 48(1) a (2), 49(2) a (2A), 52(1), (2), (3) a (4) a 138(7) ac (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, a pharagraffau 1(7) a 2B o Atodlen 14 iddi, a chan adrannau 24(3) a (4) a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002, ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt a chan adrannau 13, 14 a 32(2) o Fesur Addysg (Cymru) 2011.
- 3.2 Gwneir Rheoliadau Rhif 2 o dan weithdrefn annilysu'r Senedd.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1 Mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am osod y fframwaith ar gyfer cyllido ysgolion. Mae Rheoliadau Rhif 2 yn disodli Rheoliadau 2002, Rheoliadau 2003 a Rheoliadau 2010.
- 4.2 Bydd Rheoliadau Rhif 2 yn cyflwyno newidiadau i'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn dyrannu cyllidebau ar gyfer yr ysgolion a gynhelir ganddynt ac i'r ffordd y maent yn monitro ac yn dwyn ysgolion i gyfrif am eu gwariant. Ni fydd y ddeddfwriaeth yn gosod beichiau ychwanegol sylweddol ar awdurdodau lleol.
- 4.3 Diben y newidiadau a wneir gan Reoliadau Rhif 2 i'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn dyrannu cyllidebau yw gwneud y system cyllido ysgolion yn fwy tryloyw, cymaradwy a chyson. Bydd hyn yn golygu bod modd cynnal trafodaethau ar sail gwybodaeth ynghylch cyllidebau ar bob lefel. Maent hefyd yn sicrhau eu bod yn adlewyrchu polisiau a deddfwriaeth gyfredol ac yn diweddarau terminoleg yn briodol.
- 4.4 Mae Rhan 2 o Reoliadau Rhif 2 yn ymdrin â'r gyllideb addysg nad yw ar gyfer ysgolion, y gyllideb ysgolion a'r gyllideb ysgolion unigol. Mae'r gyllideb addysg nad yw ar gyfer ysgolion yn ymwneud â'r gwariant ar swyddogaethau awdurdod lleol y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ei gadw'n ganolog.
- 4.5 Caiff y gyllideb ysgolion unigol ei ffurfio drwy ddidynnu rhai o'r eitemau gwariant a nodir yn Atodlen 3 i Reoliadau Rhif 2, neu bob un ohonynt, o'r gyllideb ysgolion. Mater i'r awdurdod lleol yw penderfynu pa eitemau gwariant o Atodlen 3 y dylid eu didynnu o'r gyllideb ysgolion. Beth

¹ <https://laiddocuments.senedd.wales/cr-ld18003-cy.pdf>

bynnag sydd ar ôl yn y gyllideb ysgolion ar ôl yr ymarfer hwnnw fydd yn ffurfio'r gyllideb ysgolion unigol.

- 4.6 Mater i'r awdurdod lleol yw penderfynu beth i'w wneud gyda'r eitemau gwariant a ddidynnir o'r gyllideb ysgolion ac na chânt eu dyrannu i'w gyllideb ysgolion unigol. Gall awdurdod lleol benderfynu cadw'r eitemau hynny o wariant yn ganolog fel y bydd yn gyfrifol am dalu eu costau. Fel arall, gall awdurdod lleol benderfynu dyrannu'r eitemau hynny o wariant i ysgolion a gynhelir. Yn yr achos hwnnw, bydd yr awdurdod lleol hefyd yn dyrannu'r cyllid ar gyfer yr eitemau hynny o wariant i ysgolion a gynhelir a fydd wedyn yn gyfrifol am dalu costau'r eitemau hynny.
- 4.7 Mae Rhan 3 o Reoliadau Rhif 2 yn ymdrin â chyfrannau o'r gyllideb ysgolion. Mae Rheoliad 8 o Reoliadau Rhif 2 yn ei gwneud yn ofynnol i'r gyllideb ysgolion unigol gael ei dyrannu fel cyfrannau o'r gyllideb i ysgolion. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r gyllideb ysgolion unigol gael ei rhannu'n gyfrannau ac y bydd pob ysgol a gynhelir yn cael cyfran o'r gyllideb. Mae Rheoliad 10 o Reoliadau Rhif 2 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol bennu fformiwla ar gyfer y cyfrannau o'r gyllideb.
- 4.8 Mae Rhan 4 o Reoliadau Rhif 2 yn ymdrin â chynlluniau ariannol awdurdodau lleol.
- 4.9 Mae Rhan 5 yn ymdrin â'r wybodaeth am wariant awdurdod lleol ar addysg y mae'n rhaid ei chynnwys yn y datganiad o wariant cynlluniedig y mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol ei baratoi cyn dechrau pob cyfnod cyllido o dan adran 52(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ("Deddf 1998"). Mae Rhan 6 yn ymdrin â'r wybodaeth am wariant awdurdodau lleol ar addysg y mae'n rhaid ei chynnwys mewn datganiad. Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol baratoi datganiad alldro ar ôl diwedd pob cyfnod cyllido yn unol ag adran 52(2) o Ddeddf 1998.
- 4.10 Mae Rheoliadau Rhif 2 yn gwneud nifer o newidiadau i Reoliadau 2002, Rheoliadau 2003 a Rheoliadau 2010. Mae'r newidiadau hyn, eu diben a'u heffaith fwriadedig, wedi'u nodi isod.

Cyhoeddi fformiwlâu cyllido

- 4.11 Mae Rheoliad 12 o Reoliadau Rhif 2 yn cynnwys gofyniad newydd i awdurdod lleol gyhoeddi ei fformiwla gyllido ar wefan sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Diben hyn yw cefnogi tryloywder.
- 4.12 Pan fydd awdurdod lleol yn ailbennu'r fformiwla a bennwyd, ni chaiff gyhoeddi'r fformiwla a ailbennwyd ar ei wefan yn hwyrach na'r dyddiad y bwriedir i'r fformiwla a ailbennwyd ddod i rym.

- 4.13 Mae hyn yn ychwanegol at y gofyniad bod yn rhaid i awdurdodau lleol anfon copi electronig o'u fformiwla gyllido, ac unrhyw ailbenderfyniadau, at gyrff llywodraethu a phenaethiaid yr ysgolion a gynhelir ganddo.

Ffactorau neu feini prawf ychwanegol fformiwlâu cyllido

- 4.14 Nid yw Rheoliadau Rhif 2 yn cynnwys gwybodaeth sy'n cyfateb i Atodlen 3 i Reoliadau 2010. Mae Atodlen 3 i Reoliadau 2010 yn nodi rhestr o ffactorau neu feini prawf ychwanegol y gellir eu hystyried yn fformiwla gyllido awdurdod lleol.
- 4.15 Bydd awdurdodau lleol yn gallu ystyried unrhyw ffactor neu feini prawf yn eu fformiwla sy'n ymwneud yn briodol â gwariant yn eu barn nhw o dan y diffiniad o'r gyllideb ysgolion. Caiff enghreifftiau o ffactorau a meini prawf priodol ar gyfer fformiwlâu cyllido awdurdodau lleol eu cynnwys mewn canllawiau cysylltiedig, y bwriedir iddynt gael eu cyhoeddi yn ystod haf 2026.
- 4.16 Roedd paragraff 19 o Atodlen 3 i Reoliadau 2010 yn darparu na chaiff awdurdod lleol, mewn perthynas â llaeth ysgol, prydau bwyd a lluniaeth arall, drin unrhyw elfen o'r gwariant hwnnw fel gwariant â gwerth negyddol. Mae'r ddarpariaeth honno wedi cael ei dileu. Yn ei lle, mae rheoliad 21(2) o Reoliadau Rhif 2 yn darparu na chaiff awdurdod lleol, wrth bennu cyfrannau o'r gyllideb ysgolion, leihau'r cyfrannau hynny mewn perthynas ag unrhyw incwm arall y mae ysgolion a gynhelir yn ei gael. Y diben yw ehangu'r ddarpariaeth fel na ellir cymhwyso gwerth negyddol mewn perthynas ag unrhyw incwm arall y mae ysgol yn ei gael. Byddai hyn yn cynnwys prydau ysgol, llaeth a lluniaeth arall, ymhlith pethau eraill. Felly, ni ellir lleihau cyllideb ysgol mewn unrhyw ffordd er mwyn cyfrif am yr incwm y mae'r ysgol yn ei gael (a ddeddfir drwy fformiwla gyllido'r awdurdod lleol neu fel arall).
- 4.17 Caiff paragraff 25 o Atodlen 3 i Reoliadau 2010 ei gadw yn rheoliad 21(3) a (4) o Reoliadau Rhif 2 hefyd. Mae Rheoliad 21(3) a (4) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, wrth bennu cyllideb ysgol, ystyried a fyddai'r gyllideb honno fwy na 5% yn llai na chyllideb y flwyddyn flaenorol. Os bydd yr awdurdod lleol yn pennu y bydd cyllideb yr ysgol fwy na 5% yn llai ac yn penderfynu cynyddu'r cyllid er mwyn mynd i'r afael â'r gostyngiad, rhaid i hyn gael ei wneud yn unol â graddfa a gyhoeddwyd gan yr awdurdod lleol yn ei gynllun ariannol. Cedwir hyn yn Rheoliadau Rhif 2, a hynny'n bennaf er mwyn sicrhau y caiff graddfeydd eu cyhoeddi er mwyn cynnal tryloywder a thegwch.

Amddifadedd

- 4.18 Mae Rheoliad 18(2) o Reoliadau 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol, wrth bennu cyfrannau o'r gyllideb ar gyfer ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd a gynhelir ganddo, ystyried yn ei fformiwla ffactor neu ffactorau sy'n seiliedig ar fynychder amddifadedd

cymdeithasol ymhlith disgyblion sydd wedi'u cofrestru ym mhob ysgol o'r fath.

- 4.19 Mae Rheoliad 21 o Reoliadau Rhif 2 yn cadw'r gofyniad hwnnw ond yn gwneud rhai newidiadau. Yn benodol, mae Rheoliad 21 yn cynnwys gofyniad newydd i fynychder amddifadedd cymdeithasol gael ei bennu drwy ystyried nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu breswyliaeth y disgyblion sydd yn yr ysgol mewn perthynas â Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Gall yr awdurdod lleol ystyried ffactorau eraill ar y cyd ag o leiaf un o'r mesurau hyn.
- 4.20 Mae Rheoliad 21 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r ffactor amddifadedd cymdeithasol beidio â chynnwys unrhyw gyllid a ddyrannwyd ar gyfer darparu prydau ysgol am ddim neu i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY"). Diben hyn yw sicrhau bod elfen y fformiwla yn cydnabod mynychder amddifadedd cymdeithasol yn benodol er mwyn diwallu anghenion y disgyblion hyn.
- 4.21 Mae paragraff 2 o Ran 3 o Atodlen 6 i Reoliadau Rhif 2 yn darparu bod awdurdodau lleol yn dangos y ffactorau cyllid amddifadedd a ddefnyddiwyd yn eu fformiwla gyllido yn eu Datganiad Cyllideb er mwyn cynyddu tryloywder.
- 4.22 Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn gysylltiedig â deilliannau addysgol gwaeth ymhlith plant. Byddai lefelau uwch o gyllid ar gyfer disgyblion dan anfantais yn helpu i leihau'r bwlch cyrhaeddiad. Mater i awdurdodau lleol unigol o hyd fydd penderfynu faint o gyllid y byddant yn dewis ei ddyrannu er mwyn diwallu'r angen hwn. Fodd bynnag, bydd ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud cyllid ar gyfer amddifadedd yn fwy tryloyw yn eu fformiwla cyllido yn helpu ysgolion i ddeall y cyllid sydd ar gael iddynt ac yn arwain at drafodaethau mwy gwybodus ynghylch y lefelau priodol o gyllid sydd eu hangen.

Ysgolion ffederal

- 4.23 Mae'n rhaid i awdurdodau lleol bennu cyllideb ddirprwyedig unigol ar gyfer pob ysgol. Mae ysgolion mewn ffederasiwn yn cael cyllidebau dirprwyedig unigol ac mae'n rhaid i unrhyw wariant ar weithgarwch ar y cyd gan y ffederasiwn gael ei ddyrannu i gyllideb yr ysgol briodol. Gall hyn greu biwrocratiaeth a gwaith gweinyddol ychwanegol i ysgolion ffederal.
- 4.24 Mae Rheoliad 24 o Reoliadau Rhif 2 yn cyflwyno darpariaeth newydd sy'n caniatáu i gyllidebau ysgolion ffederal gael eu cyfuno, fel y gellir creu un gyllideb ffederal ar gyfer pob ysgol sy'n rhan o'r ffederasiwn. Caniateir camau i gyfuno cyllidebau os ceir cais can ffederasiwn i wneud hynny. Hynny yw, gall ffederasiwn ddewis cael ei gyllidebau unigol fel un gyfran gyfunol o'r gyllideb.

- 4.25 O dan Reoliadau Rhif 2, mae'r awdurdod lleol yn parhau i bennu cyllidebau dirprwyedig ysgolion yn unigol, gan ddefnyddio'r un fformiwla â'r hyn a ddefnyddir ar gyfer ysgolion annibynnol eraill. Fodd bynnag, bydd gan y ffederasiwn yr opsiwn wedyn i gael ei gyllidebau dirprwyedig gan yr awdurdod lleol cynhaliol fel un gyfran o'r gyllideb ac yna adrodd yn erbyn yr un gyfran o'r gyllideb. Bydd hyn yn helpu ffederasiynau i ddefnyddio eu cyllidebau yn fwy effeithiol, lleihau eu gwaith gweinyddol ac adrodd, a chefnogi dull mwy strategol o dan eu corff llywodraethu unigol.
- 4.26 Mae Rheoliadau Rhif 2 yn caniatáu i ysgolion ffederal sydd wedi dewis cael un gyllideb ffederal adrodd ar yr un gyllideb ffederal honno, yn hytrach nag ar gyllidebau ysgolion unigol ar gyfer datganiadau alldro.

Cynlluniau ariannol

- 4.27 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi cynllun ariannol sy'n amlinellu'r gydberthynas ariannol rhwng yr awdurdod a'r ysgolion a gynhelir ganddo, yn unol ag adran 48 o Ddeddf 1998. Mae'r cynlluniau hyn yn rhwymo'r awdurdod lleol a'r ysgolion. Mae'n rhaid i gynllun ariannol a gynhelir gan awdurdod lleol ymdrin â'r materion sy'n gysylltiedig â chyllido ysgolion a gynhelir ganddo a nodir yn Atodlen 4 i Reoliadau Rhif 2.
- 4.28 Mae Rheoliad 30 o Reoliadau Rhif 2 yn cyflwyno gofyniad newydd fel bod yn rhaid i awdurdodau lleol gyhoeddi copi o'u cynllun ar wefan sy'n hygyrch i'r cyhoedd.
- 4.29 Mae paragraff 2 o Atodlen 4 i Reoliadau Rhif 2 yn cyflwyno gofyniad newydd i gynlluniau ariannol awdurdodau lleol nodi'r meysydd o'u cyllideb ysgolion nad ydynt wedi'u dirprwyo i ysgolion, ond a gedwir yn ganolog gan yr awdurdod lleol i'w gwario ar ysgolion (gweler Atodlen 3 i Reoliadau Rhif 2).
- 4.30 Mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn o ran p'un a fyddant yn dirprwyo'r penawdau gwariant yn Atodlen 3 i Reoliadau Rhif 2 ac, o ganlyniad, mae penawdau gwariant y mae'r cyfrifoldeb amdanynt wedi'i ddirprwyo i ysgolion mewn rhai awdurdodau lleol, ond a gedwir mewn awdurdodau eraill. Mae hyn yn golygu nad yw lefelau cyllideb ysgolion mewn un awdurdod lleol yn wirioneddol gymaradwy â'r rhai mewn awdurdod lleol gwahanol. Nod y ddarpariaeth hon yw cynyddu tryloywder.

Datganiad Cyllideb

- 4.31 Mae Rheoliadau 2002 wedi'u hailddeddfu yn Rhan 5 o Reoliadau Rhif 2 i raddau helaeth. Fodd bynnag, mae rhai newidiadau wedi'u gwneud er mwyn gwella eglurder, cysondeb a chymharedd. Mae'r newidiadau yn

ymwneud i raddau helaeth â'r ffordd y caiff yr wybodaeth ei chyflwyno, yn hytrach na sylwedd yr wybodaeth a ddarperir.

- 4.32 Mae Rheoliadau Rhif 2 yn rhannu gwariant yr adroddir arno yn y Datganiad Cyllideb Addysg yn categorïau gwahanol er mwyn gwella tryloywder, eglurder a chymharedd. Y categorïau yw Dirprwyad Craidd, Dirprwyad Dewisol a Dirprwyadau ADY (a rennir ymhellach yn Ddirprwyad ADY Craidd a Dirprwyad ADY Dewisol). Mae Rheoliadau Rhif 2 yn nodi'r hyn sydd wedi'i gynnwys ym mhob un o'r categorïau hyn.
- 4.33 Mae Atodlen 5 i Reoliadau Rhif 2 yn dangos ffurflen y Datganiad Cyllideb Addysg y mae'n rhaid ei chwblhau. Mae'r dull gweithredu hwn yn wahanol i Reoliadau 2002 am ei bod yn ofynnol i 'Cyfran o'r Gyllideb fesul Ysgol' gael ei rhannu ymhellach yn golofnau ar gyfer Dirprwyad Craidd, Dirprwyad Dewisol a Dirprwyadau ADY. Byddai'r gwerthoedd ym mhob un o'r colofnau hyn yn adio i greu'r Cyfanswm a Ddirprwyir. Mae diwygiadau wedi'u gwneud hefyd i rannu 'Cyfran o'r Gyllideb fesul Disgybl/Lle' yn golofnau ar gyfer Dirprwyad Craidd (gan gynnwys y Dirprwyad ADY) a Dirprwyad Dewisol (gan gynnwys y Dirprwyad ADY Dewisol).
- 4.34 Er mwyn cefnogi tryloywder ymhellach, mae dwy golofn arall wedi'u hychwanegu at ffurflen Rhan 1 (Gwybodaeth Lefel Ysgol), sef y Datganiad Cyllideb Addysg yn Atodlen 5 i Reoliadau Rhif 2 er mwyn cofnodi'r amcangyfrif o gyfran yr ysgol o'r gyllideb ar gyfer y ddau gyfnod cyllido dilynol (fel sy'n ofynnol o dan reoliad 9(2)(b) o Reoliadau Rhif 2).
- 4.35 Er mwyn lleihau baich gweinyddol a rhoi mwy o eglurder, mae ffurflen Rhan 2 (Ffactorau Cyllido), sef y Datganiad Cyllideb Addysg ("Ffurflen Rhan 2") yn Atodlen 6 i Reoliadau Rhif 2, yn cyfuno'r hyn a oedd yn Rhannau 2 a 3 yn Rheoliadau 2002 yn flaenorol (ar gyfer Rhan 2, gweler Atodlen 2 i Reoliadau 2002 ac, ar gyfer Rhan 3, gweler Atodlen 3 i Reoliadau 2002). Mae Rhan 2 o Atodlen 6 i Reoliadau Rhif 2 yn darparu'r fethodoleg ar gyfer pennu cyfran ysgol o'r gyllideb a'r gyfran o'r gyllideb ar gyfer pob un o ysgolion yr awdurdod.
- 4.36 Mae Paragraff 8 o Ran 1 o Atodlen 6 i Reoliadau Rhif 2 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol, ar gyfer pob ysgol a phob math o ysgol, gwblhau Ffurflen Rhan 2 ar gyfer pob un o'r mathau gwahanol o wariant er mwyn ei gwneud yn gliriach ac yn haws i randdeiliaid ddeall eu cyllidebau, a sut y cânt eu cyfrifo.
- 4.37 Mae Rheoliad 33 i Reoliadau Rhif 2 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gopi o'r Datganiad Cyllideb gael ei gyhoeddi ar wefan a gynhelir gan yr awdurdod lleol a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru drwy e-bost.

Datganiad alldro

- 4.38 Mae Rheoliad 38 o Reoliadau Rhif 2 yn nodi dyddiad ar gyfer cyflwyno datganiadau alldro i Lywodraeth Cymru sy'n wahanol i'r dyddiad a nodir

yn Rheoliadau 2003. Mae Rheoliadau Rhif 2 yn darparu bod yn rhaid gwneud hyn erbyn 31 Gorffennaf bob blwyddyn. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer gwaith casglu a dilysu fel y gellir cyhoeddi data ym mis Hydref. Yn gryno, mae hynny'n golygu bod yn rhaid cyhoeddi datganiad alldro (a'i anfon at Weinidogion Cymru) cyn 31 Gorffennaf yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'n gysylltiedig â hi.

- 4.39 Mae Rheoliad 37 o Reoliadau Rhif 2 hefyd yn darparu ar gyfer gofynion cyhoeddi fel eu bod yn cyd-fynd â gofynion cyhoeddi Datganiadau Cyllideb fel y nodwyd uchod.

Atodlenni 2 a 3 i Reoliadau Rhif 2

- 4.40 Mae Atodlen 2 i Reoliadau Rhif 2 yn nodi'r dosbarthiadau neu'r disgrifiadau ar gyfer y gyllideb addysg nad yw ar gyfer ysgolion. Fel y nodwyd uchod, eitemau gwariant yw'r rhain y mae'r awdurdod lleol yn cadw cyfrifoldeb amdanynt ac maent yn ymwneud â swyddogaethau canolog awdurdodau lleol ac yn cynnwys costau darpariaeth o natur arbenigol, gwelliannau i ysgolion, mynediad at addysg, addysg bellach a hyfforddiant i bobl ifanc ac oedolion, a rheolaeth strategol. Fel y cyfryw, ni chânt eu dirprwyo i ysgolion ac ni chânt eu cynnwys yn y Gyllideb Ysgolion.
- 4.41 Mae Atodlen 3 i Reoliadau Rhif 2 yn nodi'r dosbarthiadau neu'r disgrifiadau y **gall** awdurdod lleol eu didynnu o'r gyllideb ysgolion. Mae'r gyllideb ysgolion yn cynnwys eitemau o wariant sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chost rhedeg ysgolion. Bydd yr awdurdod lleol yn didynnu o'r gyllideb ysgolion yr eitemau o wariant yn Atodlen 3 y bydd yn dymuno eu cadw'n ganolog i'r awdurdod lleol eu gwario ar gefnogi ysgolion, er mwyn pennu ei gyllideb ysgolion unigol a fydd, yn ei thro, yn cael ei rhannu a'i dyrannu i bob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol (cyfran yr ysgol o'r gyllideb).
- 4.42 Heblaw am ddiwygiadau canlyniadol i sicrhau bod Rheoliadau 2010 yn gyson â deddfwriaeth arall a diweddarau terminoleg fel y bo angen, dim ond mân ddiwygiadau sydd i'r Atodlenni. Mae'r rhain wedi'u nodi isod.
- 4.43 Mae gwariant ar ardrethi annomestig wedi cael ei ychwanegu fel eitem o wariant gan baragraff 36 o Atodlen 2. Felly, bydd bellach yn cael ei gynnwys yn y gyllideb addysg nad yw ar gyfer ysgolion, yn hytrach na'r gyllideb ysgolion. Mae ardrethi annomestig y tu hwnt i ddylanwad ysgolion. Fe'i telir yn naturiol i ysgolion ond i'r awdurdod lleol ei adennill ar yr un gyfradd. Mae hefyd yn ffactor camystumiol o ran cyllido ysgolion gan nad oes unrhyw gysylltiad uniongyrchol rhwng ardrethi annomestig a maint ysgol, boed hynny o ran nifer y disgyblion ar y gofrestr neu arwynebedd yr adeilad.
- 4.44 Mae paragraff 26 o Atodlen 2 i Reoliadau 2010 yn cynnwys 'Gwariant ar ffi trwyddedau neu danysgrifiadau a delir ar ran ysgolion ar yr amod nad yw'r gwariant yn dod i gyfanswm sy'n fwy na 0.2 y cant o gyllideb

ysgolion yr awdurdod'. Mae paragraff 28 o Atodlen 3 i Reoliadau Rhif 2 yn diddymu'r terfyn canrannol ar gyfer yr eitem hon o wariant. Nod y newid hwn yw gwneud rheolaeth ariannol yn fwy hyblyg a lleihau'r angen am drefniadau prynu'n ôl.

Trothwyon ar gyfer gwargedion yng nghyllidebau ysgolion

- 4.45 Mae paragraff 20 o Atodlen 4 i Reoliadau 2010 yn caniatáu i awdurdodau lleol gynnwys yn eu cynlluniau ariannol ddarpariaeth sy'n eu galluogi i gyfarwyddo corff llywodraethu ysgol o ran sut i wario gwarged ym malans yr ysgol. Os na fydd corff llywodraethu'r ysgol yn cydymffurfio â chyfarwyddyd yr awdurdod lleol, gall yr awdurdod lleol adennill rhan o'r gwarged hwnnw neu'r gwarged cyfan a'i ddyrannu i gyllideb ysgolion gyffredinol yr awdurdod i'w ail-neilltuo i ysgolion neu er budd ysgolion fel y'i pennir gan yr awdurdod.
- 4.46 Mae paragraff 22 o Atodlen 4 i Reoliadau Rhif 2 yn diwygio'r gwerthoedd ariannol a bennwyd yn flaenorol ar gyfer gwargedion i wargedion sy'n fwy na 5% o gyllideb yr ysgol, er mwyn adlewyrchu ysgolion o feintiau gwahanol ac sydd â chyllidebau gwahanol ledled Cymru. Hefyd, ni fydd chwyddiant yn effeithio ar ganran yn yr un ffordd â gwerth ariannol.
- 4.47 Y ganran hon yw'r trothwy pan y gall awdurdod lleol gymryd camau gweithredu. Byddai awdurdodau lleol yn parhau i weithio gydag ysgolion i reoli eu cyllideb ac yn ystyried amgylchiadau unigol wrth wneud unrhyw benderfyniadau.
- 4.48 Mae paragraff 21 o Atodlen 4 i Reoliadau Rhif 2 yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun ariannol yr awdurdod lleol gynnwys datganiad yn nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn monitro'r ffordd y bydd corff llywodraethu yn defnyddio'r gwarged sydd wedi'i gynnwys mewn unrhyw ddatganiad. Bydd hyn yn cryfhau'r broses a thryloywder.

Cyllidebau ysgolion lle ceir diffyg

- 4.49 Mae paragraff 23 o Atodlen 4 i Reoliadau Rhif 2 yn cyflwyno gofyniad i awdurdodau lleol gynnwys yn eu cynlluniau ariannol ddarpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu gyflwyno cynllun i adennill unrhyw ddiffygion sy'n codi mewn perthynas â chyfran yr ysgol o'r gyllideb ("cynllun adennill diffyg") er mwyn i'r awdurdod lleol ei gymeradwyo.
- 4.50 Mae paragraff 23 o Atodlen 4 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gynnwys yn ei gynllun ariannol ddatganiad yn nodi'r prosesau mewn perthynas â chynllun adennill diffyg drafft.
- 4.51 Mae hyn yn helpu i sicrhau bod cyllideb ysgol yn cael ei monitro'n briodol ac y caiff cymorth ei ddarparu mewn modd amserol.

5. Ymgynghoriad

- 5.1 Cyn ymgynghoriad ffurfiol ar y polisi i lywio Rheoliadau Rhif 2, sefydlodd swyddogion Llywodraeth Cymru Weithgor Cyllid Ysgolion i drafod y diwygiadau arfaethedig er mwyn sicrhau bod safbwyntiau awdurdodau lleol yn cael eu hystyried drwy'r gwaith. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolaeth o naw awdurdod lleol ac yn sicrhau gwasgariad daearyddol.
- 5.2 Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol rhwng 24 Mehefin 2025 a 2 Medi 2025 ar y dull polisi i lywio Rheoliadau Rhif 2. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru ynghyd â Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog i gyhoeddi'r ymgynghoriad. Tynnwyd sylw rhanddeiliaid at yr ymgynghoriad, gan gynnwys Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Cymdeithas Trysoryddion Cymru, Undebau Addysg ac ysgolion. Cyn cyhoeddi'r ymgynghoriad, gwnaed gwaith ymgysylltu cynnar â CCAC, CLILC, Cymdeithas Trysoryddion Cymru ac Undebau Addysg er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt. Cafwyd 40 o ymatebion. Mae dogfennau'r ymgynghoriad a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yn [Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro \(Cymru\) 2026 | LLYW.CYMRU](#).
- 5.3 Ymgysylltwyd ag undebau addysg ar ddechrau'r broses hefyd er mwyn ystyried cynigion cychwynnol, yn benodol mewn perthynas ag ysgolion ffederal, cynnwys yr Atodlenni i Reoliadau 2010 a throthwyon ar gyfer gwargedion. Gwnaed hyn drwy holiadur anffurfiol i gasglu safbwyntiau cychwynnol am y diwygiadau arfaethedig i Reoliadau 2010 a rannwyd ag awdurdodau lleol ac undebau llafur yn 2022.
- 5.4 Mae'r prif bwyntiau o'r ymgynghoriad ffurfiol wedi'u cynnwys isod.
- 5.5 Yn gyffredinol, dangosodd yr ymatebion gefnogaeth gref i'r diwygiadau arfaethedig. Nododd ymatebwyr y tryloywder, y cysondeb a'r cymharedd y byddai'r diwygiadau yn eu cynnig i'r fformiwla cyllido ysgolion ac adroddiadau cyllideb, ac roeddent yn croesawu hyn. Roedd y mwyafrif yn cytuno â'r holl ddiwygiadau arfaethedig.
- 5.6 Fel yr amlinellwyd yn y crynodeb o'r ymgynghoriad, roedd un cynnig nad yw wedi cael ei gynnwys yn Rheoliadau Rhif 2 yn dilyn yr ymgynghoriad a'r adborth. Nid yw'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddefnyddio data o Gyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion ("CYBLD") y mis Ionawr diweddaraf i gyfrifo nifer y disgyblion mewn penderfyniadau cychwynnol am gyfrannau o'r gyllideb wedi cael ei gynnwys yn Rheoliadau Rhif 2. Nododd ymatebion i'r ymgynghoriad fod angen hyblygrwydd neu ddefnyddio data ychwanegol er mwyn helpu i ymateb i newidiadau yn niferoedd disgyblion, a allai gael effaith ar ysgolion llai o faint yn arbennig. Nodwyd bod heriau gweithredu mewn perthynas ag amserlenni'r data sydd ar gael yn bryder hefyd. Gan ystyried yr adborth, bydd hyn yn aros fel y mae yn Rheoliadau 2010.

Felly, caiff niferoedd disgyblion eu cyfrifo yn Rheoliad 15 o Reoliadau Rhif 2 yn yr un ffordd â Rheoliad 13 o Reoliadau 2010. Bydd canllawiau yn cynghori y dylai awdurdodau lleol fod yn gwbl dryloyw o ran y data y maent yn eu defnyddio i lywio eu fformiwlâ a bod y data o natur ragweladwy.

- 5.7 Mynegodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad bryderon ynghylch lefelau cyllid presennol, gan gynnwys cyllid ar gyfer ADY, cyllid amddifadedd a chyllid ar gyfer ysgolion ffydd. Fodd bynnag, cydnabu ymatebwyr yn eang y bydd y diwygiadau arfaethedig eraill a nodwyd yn y cynigion yn darparu gwybodaeth fwy cyson, cymaradwy a thryloyw, sy'n golygu y bydd yn haws nodi a herio unrhyw anghydraddoldeb.
- 5.8 Nododd ymatebwyr sawl budd sy'n gysylltiedig â'r cynigion, yn enwedig mewn perthynas â gwybodaeth ariannol fwy tryloyw, cyson a chymaradwy gan awdurdodau lleol. Ystyriwyd bod y gwelliannau hyn yn cyfrannu at ddealltwriaeth well o drefniadau cyllido ac yn hyrwyddo dull tecach o ddyrannu adnoddau.
- 5.9 Mynegwyd pryderon ynglŷn â'r effaith weinyddol ar awdurdodau lleol, gan gynnwys yr angen am hyfforddiant er mwyn rhoi'r gofynion newydd ar waith yn effeithiol. Nodwyd risgiau posibl ynglŷn â chostau gweinyddol cynyddol i awdurdodau lleol, yn enwedig mewn perthynas ag ail-lunio fformiwlâu cyllido, diweddarau cynlluniau a chynnal ymgynghoriadau. Hefyd, nododd rhai ymatebwyr y risg o amrywiadau yng nghyllideb ysgolion unigol.
- 5.10 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall fod gwaith gweinyddol ychwanegol i awdurdodau lleol pan gaiff y ddeddfwriaeth newydd ei chyflwyno, gan gynnwys yr angen i ymgynghori ag ysgolion a rhanddeiliaid a diwygio dogfennau presennol. Fodd bynnag, yn y tymor hwy, rhagwelir y bydd yr amser gweinyddol yn lleihau. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol drwy Weithgor yr Adolygiad o Gyllido Ysgolion i brofi ffurflenni Datganiadau Cyllideb Addysg a llunio canllawiau cynhwysfawr a thempledi er mwyn cynorthwyo'r broses weithredu.
- 5.11 Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i sicrhau y caniateir digon o amser i awdurdodau lleol gynnal ymgynghoriadau a gwneud unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i'w prosesau a/neu bolisïau gan na fydd y Rheoliadau hyn yn dod i rym tan 31 Ionawr 2027. Felly, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gydymffurfio â Rheoliadau Rhif 2 erbyn blwyddyn ariannol 2027-28.
- 5.12 Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau i gefnogi'r broses weithredu a chysondeb.
- 5.13 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall fod rhai amrywiadau cychwynnol i gyllidebau ysgolion unigol, os bydd angen i awdurdodau lleol ddiwygio eu fformiwlâu cyllido neu os byddant yn dewis gwneud

hynny. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru yn rhagnodi symiau na gwerthoedd i'w dyrannu. Mater i awdurdodau lleol unigol yw hyn. Mae'n bosibl y gall amrywiadau fod o ganlyniad i gyfraddau cydymffurfio uwch â Rheoliadau 2010 (lle bu achosion o gamddehongli yn y gorffennol o bosibl) a chmau i ddosbarthu cyllid yn decach.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Opsiynau

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

- 6.1 Os na chaiff y ddeddfwriaeth ei newid, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd heriau yn y system cyllido ysgolion o hyd mewn perthynas â chymhlethdod, anghysondeb a thryloywder. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i randdeiliaid herio cyllid ysgolion a deall effeithiau dewisiadau cyllido gwahanol. Hefyd, mae rhai awdurdodau lleol wedi dweud bod Rheoliadau 2002, Rheoliadau 2003 a Rheoliadau 2010 ("y Rheoliadau presennol") yn anodd eu defnyddio a'u deall, sy'n golygu bod diffyg cysondeb o ran y ffordd y cânt eu dehongli.

Opsiwn 2: Peidio â gwneud unrhyw newidiadau deddfwriaethol, ond cyflwyno canllawiau.

- 6.2 Os na chaiff y Rheoliadau presennol eu newid, ond bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno canllawiau mewn perthynas â'r rheini, gall hyn helpu i sicrhau cysondeb o ran y ffordd y caiff y Rheoliadau presennol eu dehongli gan randdeiliaid. Fodd bynnag, bydd heriau o hyd mewn perthynas â chymhlethdod, cysondeb a thryloywder gan na fydd pwerau sy'n gwneud y newidiadau a gynigir yn Rheoliadau Rhif 2, sydd â'r nod o greu system fwy tryloyw, cymaradwy a chyson, yn ofynnol. Fodd bynnag, byddai'r hen gyfeiriadau deddfwriaethol yn y Rheoliadau presennol yn bodoli o hyd ac felly'n peri dryswch.

Opsiwn 3: Gwneud rhai newidiadau deddfwriaethol

- 6.3 Mae gwneud rhai newidiadau deddfwriaethol yn opsiwn, ond byddai'r effaith yn dibynnu ar ba newidiadau fyddai'n cael eu gwneud. Byddai gwneud rhai o'r newidiadau deddfwriaethol, ond nid pob un ohonynt, yn golygu na fyddai'r gwelliannau o ran tryloywder, cymharedd a chysondeb gystal, a allai effeithio ar y gallu i gynnal trafodaethau mwy gwybodus ynghylch cyllidebau.

Opsiwn 4: Gwneud y newidiadau deddfwriaethol yn llawn

- 6.4 Drwy wneud y Rheoliadau Rhif 2 arfaethedig yn llawn, bydd Llywodraeth Cymru yn cryfhau'r ddeddfwriaeth bresennol ac yn ymdrin â nifer o'r argymhellion yn adroddiad Cyllido Ysgolion yng Nghymru y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (2019), yr Adolygiad annibynnol o Wariant Ysgolion yng Nghymru (2020) ac Adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Fformiwla Cyllido Ysgolion (2025).
- 6.5 Bydd y newidiadau deddfwriaethol yn rhoi mwy o hyblygrwydd fel y gall awdurdodau lleol roi cymorth gwell i ysgolion reoli eu cyllidebau a sicrhau

bod y system yn fwy tryloyw, cymaradwy a chyson, fel bod modd cynnal trafodaethau ar sail gwybodaeth ynghylch cyllidebau ar bob lefel.

7. Costau a manteision

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

Costau

- 7.1 Bydd cost o ran enw da Llywodraeth Cymru os na chaiff newidiadau eu gwneud am fod y system bresennol yn achosi nifer o heriau yn ôl rhanddeiliaid. Hefyd, bydd cost o ran enw da os na chaiff yr argymhellion yn yr adroddiadau a nodwyd uchod eu rhoi ar waith, fel y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n gyhoeddus i'w wneud.
- 7.2 Bydd y system cyllido ysgolion yn parhau i achosi heriau o ran cymhlethdod, anghysondeb a thryloywder.

Manteision

- 7.3 Ni fydd yn ofynnol i awdurdodau lleol dreulio amser yn gwneud newidiadau i'w systemau a'u prosesau er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â Rheoliadau Rhif 2.
- 7.4 Bydd cymariaethau ystadegol yn parhau i fod yn gymaradwy â blynyddoedd blaenorol, er na fyddai'r wybodaeth sydd ynddynt yn gymaradwy o hyd.

Opsiwn 2: Peidio â gwneud unrhyw newidiadau deddfwriaethol, ond cyflwyno canllawiau.

Costau

- 7.5 Bydd cost o ran enw da Llywodraeth Cymru os na chaiff y newidiadau deddfwriaethol eu gwneud am fod y system bresennol yn achosi nifer o heriau yn ôl rhanddeiliaid. Hefyd, bydd cost o ran enw da os na chaiff yr argymhellion yn yr adroddiadau amrywiol a nodwyd uchod eu rhoi ar waith, fel y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n gyhoeddus i'w wneud.
- 7.6 Bydd y system cyllido ysgolion yn parhau i achosi heriau o ran cymhlethdod, anghysondeb a thryloywder.

Manteision

- 7.7 Mae'n bosibl y bydd cyhoeddi canllawiau ar y Rheoliadau presennol yn gwella cysondeb o ran y ffordd y caiff y rheoliadau hynny eu dehongli gan rhanddeiliaid, ond bydd y gwelliant hwn yn gyfyngedig o gymharu â gwneud y newidiadau deddfwriaethol.

Opsiwn 3: Gwneud rhai newidiadau deddfwriaethol

Costau

- 7.8 Mae costau gwneud rhai newidiadau deddfwriaethol yn debyg i raddau helaeth i'r rhai ar gyfer gwneud yr ystod lawn o newidiadau deddfwriaethol, o ran costau gweinyddol i Lywodraeth Cymru ac i lywodraeth leol.
- 7.9 Bydd yr un costau yn gymwys i randdeiliaid eraill am ymgyfarwyddo â Rheoliadau Rhif 2, p'un a gaiff rhai newidiadau eu gwneud neu bob un ohonynt.
- 7.10 Yn dibynnu ar ba newidiadau fyddai'n cael eu gwneud, mae'n bosibl y bydd cost o ran enw da Llywodraeth Cymru gan na fydd yn gallu mynd i'r afael â chynifer o'r argymhellion yn yr adroddiadau amrywiol, o gymharu â gwneud y newidiadau deddfwriaethol yn llawn.
- 7.11 Bydd y system cyllido ysgolion yn parhau i achosi heriau o ran cymhlethdod, anghysondeb a thryloywder.

Manteision

- 7.12 Mae manteision cyflwyno rhai newidiadau deddfwriaethol yn debyg i'r rhai a nodir ar gyfer Opsiwn 4, ond i raddau llai.

Opsiwn 4: Gwneud y newidiadau deddfwriaethol yn llawn

Costau

- 7.13 Os caiff y newidiadau deddfwriaethol eu gwneud, bydd costau i Lywodraeth Cymru am wneud Rheoliadau Rhif 2 a'r canllawiau cysylltiedig. Bydd hyn yn cynnwys amser swyddogion i ddatblygu Rheoliadau Rhif 2 a'r canllawiau, a chyfieithu'r dogfennau. Mae'n debyg mai costau untro fyddai'r rhain a byddant yn cael eu talu gan ddefnyddio cyllidebau presennol.
- 7.14 Amcangyfrifir y bydd yn costio £12,000 i lunio'r rhannau o'r canllawiau sy'n ymwneud â'r newidiadau deddfwriaethol a amlinellir yma, a'u cyfieithu. Bydd y canllawiau hefyd yn cwmpasu unrhyw elfennau o'r deddfwriaeth nad ydynt wedi cael eu newid ac sy'n ofynion presennol.
- 7.15 Er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Rhif 2, mae'n bosibl y bydd costau gweinyddol i awdurdodau lleol yn y lle cyntaf o ganlyniad i roi diwygiadau ar waith. Bydd angen i awdurdodau lleol ymgyfarwyddo â Rheoliadau Rhif 2, adolygu eu prosesau, eu fformiwlâu cyllido ysgolion a'u cynlluniau ariannol, a'u diwygio o bosibl, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â Rheoliadau Rhif 2. Mae'n debygol mai costau untro fyddai'r rhain er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Rheoliadau Rhif 2. Mae

Llywodraeth Cymru yn cynnig cyhoeddi canllawiau ar Reoliadau Rhif 2 er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol.

- 7.16 Fel rhan o'r ymgynghoriad, gwnaethom ofyn am adborth ar unrhyw gostau neu risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynigion. Nodwyd yr effaith weinyddol ar awdurdodau lleol, gan gynnwys yr angen am hyfforddiant er mwyn rhoi'r gofynion newydd ar waith yn effeithiol. Nodwyd y costau cynyddol posibl i awdurdodau lleol, yn enwedig mewn perthynas ag ail-lunio fformiwlâu cyllido, diweddarau cynlluniau ariannol a chynnal ymgynghoriadau. Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad y bydd y cynigion yn cynyddu tryloywder, cysondeb a chymharedd.
- 7.17 Gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Gweithgor Cyllid Ysgolion, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, am gostau disgwylidig. Fodd bynnag, ni chafwyd digon o ymatebion i bennu'r costau cyfartalog tebygol. Roedd yn heriol i awdurdodau lleol amcangyfrif y costau, ond mae'n debygol y bydd y costau yn isel ac y cânt eu talu gan ddefnyddio adnoddau presennol.
- 7.18 Mae'n bosibl y bydd cost barhaus i awdurdodau lleol am gyhoeddi eu fformiwlâ gyllido ar eu gwefan, ond bydd gan awdurdodau lleol yr wybodaeth hon eisoes. Mae'n debygol y bydd y costau hyn yn isel ac y cânt eu talu gan ddefnyddio cyllidebau ac adnoddau presennol.
- 7.19 Mae'n bosibl y bydd cost anuniongyrchol i ysgolion. O ganlyniad i'r newidiadau, gall awdurdodau lleol ddiwygio eu fformiwlâu cyllido. Gall hyn arwain at gynyddu neu leihau'r dosbarthiad o gyllideb ysgolion awdurdod lleol i gyfrannau ysgolion unigol. Serch hynny, nid yw'r diwygiadau yn effeithio'n uniongyrchol ar y gyllideb gyffredinol a bydd newidiadau o ganlyniad i wneud y system cyllido ysgolion yn decach ar draws awdurdodau lleol. Mae'n bosibl hefyd y bydd cyllidebau ysgolion unigol yn amrywio o ganlyniad i gydymffurfiaeth well â'r gofynion, lle bu achosion o gamddechongli yn flaenorol o bosibl, yn hytrach na'r gofynion newydd yn Rheoliadau Rhif 2.
- 7.20 Byddai cost anuniongyrchol arall o ganlyniad i'r ffaith bod mwy o dryloywder, cymharedd a chysondeb fel bod modd cynnal trafodaethau ar sail gwybodaeth ynghylch cyllidebau. Gallai hyn arwain at newidiadau i gyllid yn sgil her gan randdeiliaid, a allai fod yn gadarnhaol neu'n negyddol. Fodd bynnag, caiff penderfyniadau ar lefel y cyllid sydd ar gael i ysgolion a gwasanaethau eraill eu gwneud gan bob awdurdod lleol wrth bennu ei gyllideb gyffredinol a'i dreth gyngor ar bob lefel.
- 7.21 Mae'n debygol y bydd newidiadau i gyllidebau ysgolion a chyllidebau ysgolion unigol o ganlyniad i'r diwygiadau arfaethedig i symud ardrethi annomestig o gyllidebau ysgolion i'r gyllideb addysg nad yw ar gyfer ysgolion. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn effeithio ar y gyllideb addysg gyffredinol ac felly'r gyllideb wirioneddol sydd ar gael i ysgolion ei gwario.

- 7.22 Mae'n debygol y bydd cymariaethau ystadegol yn amrywio yn y lle cyntaf o ganlyniad i newidiadau megis ardrethi annomestig, dulliau adrodd ysgolion ffederal mewn datganiadau alldro a chynllun diwygiedig Datganiadau Cyllideb, yn unol ag Atodlenni 5 a 6 i Reoliadau Rhif 2. Fodd bynnag, bydd ystadegau cyffredinol yn y dyfodol yn fwy cymaradwy ar draws ysgolion ac awdurdodau. Bydd ystadegau hefyd yn adlewyrchu darlun gwirioneddol cyllid ysgolion yn well ac yn gliriach, a fydd yn galluogi rhanddeiliaid i elwa ar system fwy tryloyw, cymaradwy a chysn fel bod modd cynnal trafodaethau ar sail gwybodaeth ynghylch cyllidebau ar bob lefel.
- 7.23 Mae'n bosibl y bydd cost o ran llwyth gwaith gweinyddol i ysgolion os bydd angen iddynt ddarparu cynllun adennill diffyg. Fodd bynnag, mae'r drefn hon eisoes ar waith mewn llawer o awdurdodau lleol ac mae'r diwygiad hwn, i raddau helaeth, yn ffurfioli'r hyn sydd eisoes yn digwydd yn ymarferol ac yn cynyddu tryloywder. Mae hyn er budd ysgolion, er mwyn helpu awdurdodau lleol i helpu ysgolion i reoli eu cyllidebau er budd pob ysgol a dysgwr.

Manteision

- 7.24 Bydd y ffurflen Datganiad Cyllideb newydd yn Rhan 2 o Atodlen 6 i Reoliadau Rhif 2 ("y ffurflen Datganiad Cyllideb newydd") yn helpu i leihau llwyth gwaith awdurdodau lleol yn y tymor hwy. Mae'r ffurflen Datganiad Cyllideb newydd yn cyfuno Rhannau 2 a 3 o Reoliadau 2002 (gweler Atodlenni 2 a 3 o Reoliadau 2002), sy'n golygu y bydd gan awdurdodau lleol lai o ffurflenni i'w cwblhau, a fydd yn lleihau'r baich gweinyddol.
- 7.25 Bydd y newidiadau yn Rheoliadau Rhif 2 i gyfuno Rhannau 2 a 3 o Reoliadau 2002 yn lleihau llwyth gwaith awdurdodau lleol na fyddant yn gorfod creu ffurflen eu hunain ar gyfer Rhan 3 mwyach. Hefyd, mae hyn yn cynyddu cysondeb a chymharedd, a fydd o fudd i randdeiliaid ac yn arwain at drafodaethau ar sail gwybodaeth ynghylch cyllidebau.
- 7.26 Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu a phrofi'r ffurflen Datganiad Cyllideb newydd gydag awdurdodau lleol yn y Gweithgor Cyllid Ysgolion, sy'n dweud ei bod yn hawdd ei defnyddio.
- 7.27 Yn ôl yr adborth a gafwyd i'r ymgynghoriad, mae'r nodiadau a'r ffurflen Datganiad Cyllideb newydd yn gliriach, yn cryfhau goruchwyliaeth ariannol ac yn helpu i sicrhau cysondeb, cymharedd a thryloywder. Hefyd, nododd yr ymgynghoriad y byddant yn cynorthwyo awdurdodau lleol yn y tymor hwy pan fydd staff yn newid ac yn lleihau amser gweinyddol.
- 7.28 Mae'r ffurflen Datganiad Cyllideb newydd hefyd yn cynnwys y cyllid ar gyfer y ddau gyfnod cyllido dilynol, a fydd yn cynyddu tryloywder ac o fudd i ysgolion gan y byddant yn gallu cynllunio. Bydd hyn hefyd yn lleihau'r baich ar awdurdodau lleol gan y byddant yn gallu rhoi cyllidebau amcangyfrifedig i ysgolion ar gyfer y ddau gyfnod cyllido dilynol yn y

ffurflen Datganiad Cyllideb newydd, yn hytrach na gorfod rhannu'r wybodaeth hon ar wahân.

- 7.29 Gallai awdurdodau lleol ddewis defnyddio'r ffurflen Datganiad Cyllideb newydd ar gyfer eu fformiwla cyllido ysgolion gyhoeddedig. Mae hyn yn golygu y gallai awdurdodau lleol ddewis defnyddio dogfen sydd eisoes yn bodoli ac y maent eisoes yn ei chwblhau, gan leihau'r baich gweinyddol.
- 7.30 Mae'r ffurflen Datganiad Cyllideb newydd hefyd yn rhannu adroddiadau ar wariant yn wahanol fathau o gyllidebau dirprwyedig, a fydd yn darparu gwybodaeth well am gyllidebau ysgolion unigol. Bydd hyn yn cynyddu tryloywder, eglurder a chymharedd i ysgolion a rhanddeiliaid ehangach. Mae hyn yn arbennig o wir wrth adrodd ar Gyllidebau Dirprwyedig ar gyfer ADY a gaiff eu rhannu'n ddau gategori, a fydd yn darparu gwybodaeth gliriach ac yn arwain at drafodaethau mwy gwybodus ynghylch cyllidebau ADY.
- 7.31 Mae darpariaeth newydd i ganiatáu i ysgolion ffederal gyfuno eu cyllidebau yn golygu y gall ffederasiynau ddefnyddio eu cyllidebau yn fwy effeithiol ac â mwy o hyblygrwydd, gan gael budd o arbedion maint, trefniadau rhannu adnoddau, llai o waith gweinyddol ac adrodd, a dull gweithredu mwy strategol o dan eu corff llywodraethu unigol. Nodwyd yn yr ymgynghoriad y byddai hyn yn arbennig o werthfawr i ysgolion bach, gwledig.
- 7.32 Bydd ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud cyllid ar gyfer amddifadedd yn fwy tryloyw yn eu fformiwla gyllido yn helpu ysgolion i ddeall y cyllid sydd ar gael iddynt ac yn arwain at drafodaethau mwy gwybodus ynghylch y lefelau priodol o gyllid sydd eu hangen.
- 7.33 Mae'r ddarpariaeth ddiwygiedig ar gyfer amddifadedd cymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i fynychder amddifadedd cymdeithasol gael ei bennu drwy ystyried nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu breswyliaeth y disgyblion sydd yn yr ysgol mewn perthynas â Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC). Bydd hyn yn sicrhau yr ymdrinnir ag amddifadedd economaidd-gymdeithasol mewn ffordd fwy cyson a bydd yn cryfhau'r gofyniad blaenorol mewn perthynas ag amddifadedd, gan sicrhau bod awdurdodau lleol yn ystyried amddifadedd a bod elfen yn eu fformiwlâu sy'n cydnabod mynychder amddifadedd cymdeithasol yn benodol er mwyn diwallu anghenion disgyblion.
- 7.34 Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn gysylltiedig â deilliannau addysgol gwaeth ymhlith plant. Byddai lefelau uwch o gyllid ar gyfer disgyblion dan anfantais yn helpu i leihau'r bwlch cyrhaeddiad. Bydd diwygio'r ffactor amddifadedd yn sicrhau yr ymdrinnir ag amddifadedd economaidd-gymdeithasol mewn ffordd gyson, ac yn golygu y gellir cynnal trafodaethau mwy gwybodus ynghylch y lefelau priodol o gyllid sydd ei angen.

- 7.35 Bydd cyhoeddi fformiwlâu cyllido a chynlluniau ariannol awdurdodau lleol ar wefan sy'n hygyrch i'r cyhoedd yn cynyddu tryloywder i bob rhanddeiliad.
- 7.36 Bydd cynnwys meysydd o gyllideb ysgolion awdurdod lleol nad ydynt wedi'u dirprwyo i ysgolion mewn cynlluniau ariannol yn cynyddu tryloywder ac yn arwain at drafodaeth fwy gwybodus ynghylch dewisiadau gwahanol ar draws awdurdodau lleol.
- 7.37 Bydd hefyd yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys datganiad yn eu cynlluniau ariannol yn nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn monitro'r modd y bydd corff llywodraethu'n defnyddio'r gwarged sydd wedi'i gynnwys mewn unrhyw ddatganiad a'r broses mewn perthynas â chynllun adennill diffyg drafft. Bydd hyn yn gwella tryloywder ac yn sicrhau proses atebolrwydd glir. Bydd hefyd yn sicrhau y darperir cymorth i ysgolion mewn modd amserol.
- 7.38 Bydd diwygio'r gwerthoedd ariannol a bennwyd yn flaenorol ar gyfer gwargedion sy'n fwy na 5% o gyllideb yr ysgol yn adlewyrchu ysgolion o feintiau gwahanol ac sydd â chyllidebau gwahanol ledled Cymru yn well. Hefyd, ni fydd chwyddiant yn effeithio ar ganran yn yr un ffordd â gwerth ariannol yn y tymor hwy.
- 7.39 Bydd tynnu ardrethi annomestig o gyllidebau ysgolion yn golygu nad yw'n ffactor camystumiol yng nghyllidebau ysgolion mwyach. Ni chaiff ei dalu i ysgolion ond i'r awdurdod lleol ei adennill mwyach. Bydd hyn yn lleihau gwaith gweinyddol a biwrocratiaeth ddiangen i ysgolion ac awdurdodau lleol ac ni fydd yn ffactor camystumiol mewn gwybodaeth ystadegol, gan gynyddu cymharedd.
- 7.40 Bydd cymariaethau cyffredinol yn y dyfodol yn fwy cymaradwy ar draws ysgolion ac awdurdodau. Bydd ystadegau yn adlewyrchu darlun gwirioneddol cyllid ysgolion yn well ac yn gliriach, gan alluogi rhanddeiliaid i elwa ar system fwy tryloyw a chymaradwy.
- 7.41 Bydd Rheoliadau Rhif 2 yn gwneud y system yn fwy tryloyw, cymaradwy a chyson, fel bod modd cynnal trafodaethau ar sail gwybodaeth ynghylch cyllidebau ar bob lefel, er budd pob dysgwr. Byddant yn sicrhau yr ymdrinnir â chyllid ysgolion mewn ffordd fwy teg, gan gynnal egwyddorion prosesau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd democrataidd lleol ar yr un pryd. Adlewyrchwyd hyn mewn sylwadau yn yr ymgynghoriad gan randdeiliaid, gan gynnwys ysgolion, undebau ac awdurdodau lleol.
- 7.42 Cydnabuwyd yn eang yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad y bydd y Rheoliadau Rhif 2 arfaethedig yn darparu gwybodaeth fwy cyson, cymaradwy a thryloyw, sy'n golygu y bydd yn haws nodi a herio unrhyw anghydraddoldeb.

Asesiad Effaith Integredig

- 7.43 Mae adrannau 1 ac 8 o'r Asesiad Effaith Integredig ar gyfer y newidiadau i'r is-ddeddfwriaeth wedi cael eu cyhoeddi a gellir dod o hyd iddynt yma: [Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro \(Cymru\) 2026: asesiad effaith integredig | LLYW.CYMRU](#). Mae wedi'i ddiwygio i nodi bod yr Asesiad Effaith Integredig sydd wedi'i baratoi ar gyfer Rheoliadau 2026 yn parhau i fod yn berthnasol i Reoliadau Rhif 2. Nid yw effeithiau sylweddol Rheoliadau Rhif 2 yn newid, ac nid oes unrhyw effeithiau ychwanegol sylweddol wedi'u nodi.
- 7.44 Mae Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth wedi cael eu cwblhau ar gyfer y newidiadau deddfwriaethol.
- 7.45 Mae Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi cael ei gwblhau hefyd ac ar gael yma: [Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro \(Cymru\) 2026: asesiad o'r effaith ar hawliau plant | LLYW.CYMRU](#). Mae wedi'i ddiwygio i nodi bod yr Asesiad Effaith Integredig sydd wedi'i baratoi ar gyfer Rheoliadau 2026 yn parhau i fod yn berthnasol i Reoliadau Rhif 2. Nid yw effeithiau sylweddol Rheoliadau Rhif 2 yn newid, ac nid oes unrhyw effeithiau ychwanegol sylweddol wedi'u nodi.

Crynodeb

- 7.46 Mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno ar Opsiwn 4, sef gwneud y newidiadau deddfwriaethol yn llawn. Bydd mabwysiadu'r dull gweithredu hwn yn sicrhau mwy o dryloywder, cymharedd a chysondeb, fel bod modd cynnal trafodaethau ar sail gwybodaeth ynghylch cyllidebau ar bob lefel. Maent hefyd yn sicrhau eu bod yn adlewyrchu polisiau a deddfwriaeth gyfredol ac yn diweddarau terminoleg yn briodol.
- 7.47 Mae Rheoliadau Rhif 2 yn bwriadu mynd i'r afael â nifer o'r argymhellion yn adroddiad Cyllido Ysgolion yng Nghymru y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (2019), Adolygiad annibynnol Luke Sibieta o Wariant Ysgolion yng Nghymru (2020) ac Adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Fformiwla Cyllido Ysgolion (2025).

8. Asesu'r Gystadleuaeth

- 8.1 Ni fydd gwneud Rheoliadau Rhif 2 yn cael unrhyw effaith ar gystadleurwydd busnesau, elusennau na'r sector gwirfoddol.

9. Adolygu ar ôl gweithredu

- 9.1 Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gydymffurfio â Rheoliadau Rhif 2 erbyn blwyddyn ariannol 2027/28.
- 9.2 Byddwn yn monitro'r broses o roi Rheoliadau Rhif 2 ar waith er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr effaith fwriadedig, sef gwneud y system cyllido

ysgolion yn fwy tryloyw, cymaradwy a chyson. Fel rhan o hyn, byddwn yn parhau i gydgyssylltu â CCAC ac yn ystyried unrhyw adborth.

- 9.3 Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gasglu a monitro data ar gyllidebau ysgolion er mwyn monitro effeithiau. Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi awdurdodau lleol i ddehongli a chymhwyso'r Rheoliadau yn gywir, gan gynnwys drwy gynnal gweithdai a chyhoeddi canllawiau.